

CYNLLUN CYFANNOL STRATEGOL I'R GYMRAEG

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Rhagair
3. Llinell Amser
4. Profiad y Myfyrwyr
5. Y Gweithle Dwyieithog
6. Y Brifysgol a'i Chymuned
7. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymchwil

1. CYFLWYNIAD

Cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol, ar 13 Rhagfyr 2013, argymhelliad i baratoi Cynllun Cyfannol a gyflwynwyd mewn adroddiad a gomisiynwyd gan y Brifysgol, ac a baratowyd gan Cwmni Iaith Cyf., i ddarparu asesiad effaith ieithyddol o leoli llety Cymraeg penodedig yn rhan o ddatblygiad Fferm Penglais. Noda argymhelliad 9 yr adroddiad:

Bod Prifysgol Aberystwyth yn ystyried datblygu cynllun strategol cyfannol yng nghyswllt hyrwyddo'r Gymraeg a fydd yn tynnu ynghyd yr holl ymdrechion cyfredol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Brifysgol ac yn adeiladu arny'n nhw.¹

Cyflwynwyd papur trafod i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg ar 31 Ionawr 2014, a chymeradwywyd y gwaith o greu Cynllun Cyfannol trwy gynnull Grŵp Tasg a Gorffen i bennu rhaglen amlinellol ac amserlen gyda'r bwriad o adrodd am ddatblygiad y gwaith yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2014. Penodwyd un o Gyfarwyddwyr y Gymraeg yr Athrofeydd yn Gadeirydd a dirprwywyd iddi y cyfrifoldeb o wahodd aelodau i ymuno â'r grŵp. Ar sail cyfres o egwyddorion, cynullwyd y grŵp ynghyd a oedd yn cynnwys myfyrwyr ac aelodau o staff y Brifysgol.

Cyflwynwyd adroddiad terfynol ar waith y grŵp i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg ar 22 Mai 2014, a chymeradwyodd y Pwyllgor yr egwyddorion a'r themâu a gyflwynir yn y Cynllun Cyfannol hwn.

Cymeradwywyd fersiwn drafft o'r Cynllun Cyfannol gan Weithrediaeth y Brifysgol a derbyniwyd cymeradwyaeth derfynol i'r Cynllun gan Gyngor y Brifysgol ar 9 Mawrth 2015.


Mae'r ddogfen hon yn cynnwys blaenoriaethau penodol y Cynllun Cyfannol, sydd wedi'u gosod fesul thema, a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion cynllunio ieithyddol y Brifysgol. Cefnogir y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyfannol gan y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, ynghyd â Chynllun Academaidd Cyfrwng Gymraeg y Brifysgol, a rhoddir y pwyslais yn y ddogfen hon ar ddarparu cynllun Defnydd Iaith i gyfannu amcanion pob un o'r strategaethau hyn. Mae'r themâu a gyflwynir yn y Cynllun wedi'u mapio yn erbyn blaenoriaethau strategol Cynllun Strategol y Brifysgol 2012-2017, a 2017 yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r targedau hyn hefyd. Ceir rhaglen weithredu lawn a chyfres o ddangosyddion perfformiad ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn. Bydd y targedau a'r pwyntiau gweithredu hyn yn cael eu monitro'n flynyddol a'u cyflwyno i'r Cyngor. Amlygwyd wrth lunio'r ddogfen hon nad yw data ar gyfer rhai o'r targedau yn hawdd i'w canfod. Er mwyn cynllunio amcanion ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau, mae'n rhaid inni sicrhau bod y modd yr ydym yn cywain data a'r dulliau adrodd yn gwbl effeithlon. Gellid cyllido'r rhan fwyaf o'r targedau o gyllidebau presennol yn ogystal â chyllid a enillir o ffynonellau allanol. Bydd unrhyw ystyriaethau cyllidol eraill yn rhan o'r cylch cyllid a chynllunio.

Mabwysiadwyd y teitl 'Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg' am ddau reswm. Yn gyntaf, anelir at gyfannu, yn yr ystyr dwyn ynghyd y cynlluniau strategol presennol sydd gennym i gynyddu dwyieithrwydd ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg (fel y gwelir yn y darlun isod).

¹ Cwmni Iaith Cyf. "Asesiad Effaith Ieithyddol: Lleoli llety Cymraeg penodedig yn rhan o ddatblygiad Fferm Penglais," <http://www.aber.ac.uk/cy/media/departmental/theuniversity/pantycelyn/asesiad-effaith-ieithyddol--cymraeg.pdf>, t. 38

Yn ail, bydd yn ein galluogi i brif-ffrydio'r Gymraeg a sicrhau bod yr iaith yn ganolog i bob elfen berthnasol o weithgareddau'r Brifysgol.

Cynllun Cyfannol



2. Rhagair

Ar ran aelodau'r Pwyllgor Datblygu Cynllun Cyfannol i'r Gymraeg, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Cynllun hwn sy'n gosod gweledigaeth ac argymhellion clir i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Prifysgol Aberystwyth. Wrth gyflwyno'r ddogfen hon gwahoddwn drafodaeth fywiog a iach am le'r Gymraeg ym mhob agwedd ar weithgaredd y Brifysgol drwy estyn llaw i ymgynghori â'n myfyrwyr, ein staff, ein rhan-ddeiliaid a'n partneriaid a'r cyhoedd yng Nghymru sy'n ymgysylltu â ni mewn ffyrdd amrywiol. Ein bwriad yw cynnwys pawb sy'n rhan o gymuned y Brifysgol i gyfrannu at ddatblygiad y Cynllun hwn gan sicrhau ei fod, yng ngwir ystyr y gair, yn cyfannu ein holl waith ac yn cryfhau dulliau o astudio, gweithio, cyfranogi a chymdeithasu drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg er 2003, ac yn 2014 cymeradwywyd y Cynllun Iaith Diwygiedig. Mae'r ymrwymiad a wnaed gan Gyngor y Brifysgol i lunio a gweithredu cynllun strategol cyfannol i'r Gymraeg yn cynnig cyfle newydd a chyffrous i ddatblygu'r Cynllun Iaith , ac fel prifysgol sy'n ymwybodol o'i dyletswydd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o'r radd flaenaf i'w myfyrwyr, staff a'i chymuned, rydym yn awyddus i sefydlu gweithdrefnau sy'n ein galluogi i gynllunio ein busnes mewn dwy iaith o'r cychwyn. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn ystyried, drwy amcanion y Cynllun hwn, swyddogaeth y Brifysgol fel man sy'n darparu addysg a gwasanaethau, a sydd yn endid economaidd sylweddol sy'n cyflogi nifer fawr o staff ac iddo drosiant ariannol arwyddocaol.

Yn ystod y misoedd diwethaf y mae'r Brifysgol wedi bod yn trafod â swyddogion o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag arwyddocâd y Safonau Iaith arfaethedig, a baratoir yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ar ein gwaith. Mae'r Cynllun Cyfannol hwn yn ymateb rhag-blaen i'r Safon Gweithredu, sef y gweithdrefnau a fabwysiedir gennym ar gyfer defnydd mewnol o'r Gymraeg, a'r Safon Hybu, sef y cynlluniau y byddwn yn eu gweithredu wrth annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein myfyrwyr, ein staff, ein rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd sy'n ymgysylltu â ni. Mae eich cefnogaeth chi i'r gwaith hwn yn allweddol, ac edrychwn ymlaen at glywed am eich profiadau o'r Gymraeg yn y Brifysgol, at rannu eich syniadau am gynlluniau newydd i hyrwyddo'r iaith ymhlith yr holl boblogaeth, boed yn siaradwyr Cymraeg, yn ddysgwyr ac yn ddi-Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am sut y gall holl gymuned y Brifysgol ddefnyddio â balchder y Gymraeg, sy'n un o ddwy o ieithoedd swyddogol y Brifysgol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i aelodau'r Pwyllgor Datblygu'r Cynllun Cyfannol am eu hamser a'u hymroddiad i'r gwaith. Bu'r drafodaeth yn un gyfoethog a chynhyrchiol a chyfrannodd pob un yn adeiladol i'r weledigaeth a gyflwynir yn y Cynllun hwn. Bu'n bleser cydweithio â'r aelodau, ac edrychaf ymlaen at eu gweld yn parhau i gymryd rhan flaenllaw yn y gwaith cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn y Brifysgol.

Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Cadeirydd Pwyllgor Datblygu'r Cynllun Cyfannol

Aelodau Pwyllgor Datblygu Cynllun Cyfannol i'r Gymraeg:

Aelodau:

Ms Gwenan Creunant

Yr Athro Andrew Evans

Dr Hywel Griffiths

Ms Mared Ifan

Dr Rhianedd Jewell

Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones (Cadeirydd)

Yr Athro Rhys Jones

Dr Huw Lewis

Dr Sian Lloyd-Williams

Dr Rhodri Llwyd Morgan

Dr Iwan Owen

Dr Elin Royles

Ms Eiri Siôn

Ms Kath Williams

Yn gweinyddu: Dr Mari Elin Jones, Dr Gwenno Piette, Mr Geraint Pugh

3. LLINELL AMSER: RHAI UCHAFBWyNTIAU DIWEDDAR

2001	Sefydlu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg Sefydlu Canolfan Edward Llwyd
2002	Penodi Swyddog Datblygu'r Gymraeg
2003	Cymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth
2004	Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf
2005	Penodi Dirprwy Is-Ganghellor â gofal am addysg Gymraeg
2006	Penodi Swyddog Marchnata'r Ddarpariaeth Gymraeg Sefydlu Canolfan Cymraeg i Oedolion Dyfarnu'r Ysgoloriaethau Ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg cyntaf y Cyngor Cyllido (HEFCW)
2007	Lansio a chyhoeddi rhifyn 1af <i>Gwerddon</i>
2008	Penodi Swyddog Datblygu Darpariaeth Gymraeg Lansio Cynllun Mentora Dysgwyr Cymraeg Dechrau casglu proffiliau ieithyddol y gweithlu Cymeradwyo Strategaeth Sgiliau Dwyieithog
2009	Cymrawd Dysgu Cyfrwng Cymraeg 1af o dan Gynllun Staffio'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg
2010	Y Brifysgol yn cyfrannu at y gwaith o sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
2011	Sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol Penodi Darlithwyr cyntaf dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dyfarnu Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Sefydlu'r Clwb Coffi
2012	Lansio Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn IBERS, Campws Penglais Dyfarnu Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Lansio Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
2013	Agor Ystafell Ddysgu Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol Sefydlu Diwrnod Cenedlaethol Shwmae Sumae Penodi Cyfarwyddwyr y Gymraeg i'r Athrofeydd Penodi Dirprwy Is-Ganghellor dros y Gymraeg a Diwylliant Cymru Sefydlu Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg
2014	Cymeradwyo'r Cynllun Iaith Diwygiedig Ras yr Iaith Iaf Lansio Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser ar y cyd â Bangor Sefydlu'r Fforwm Myfyrwyr Cymraeg Sefydlu Gweithgor Defnydd Pantycelyn i'r Dyfodol Penodi Tiwtor Iaith i gefnogi myfyrwyr

4. PROFIAD Y MYFYRWYR*

*Mae'r adran hon yn berthnasol i Amcanion Strategol 1, 3, 4 a 6 y Brifysgol

Profiad Academaidd


Profiad y Myfyrwyr: Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i ddarparu a chyfoethogi profiad dwyieithog y myfyrwyr sy'n astudio yma yn Aberystwyth. Bydd Cynllun Academaidd newydd yn cynnwys: gosod targedau a blaenoriaethau cyfrwng Cymraeg i'r Athrofeydd; disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau dwyieithog; cynnig anogaeth i fyfyrwyr nad oes ganddynt wybodaeth o'r Gymraeg i fanteisio ar y cyfle i ddysgu iaith newydd; cynnal cyfarfodydd cyson a strwythuredig o Fforwm y Myfyrwyr Cymraeg; paratoi Cynllun Marchnata ar gyfer y ddarpariaeth academaidd drwy'r Gymraeg, gan hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd yn y gweithle; ac ymchwilio i brofiadau myfyrwyr o fyw ac astudio drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol.

O Amaeth i Astudiaethau Plentynodod, ac o Ffiseg i Wleidyddiaeth, mae lluo o gyfleoedd i ymgymryd ag astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gellir astudio drwy'r Gymraeg ym mhob un o'r chwe Athrofa gyda dwy o'r Athrofeydd yn cynnig dyfnder darpariaeth sy'n galluogi myfyrwyr i ddilyn cynlluniau gradd cyfrwng Cymraeg, megis y Gymraeg, Hanes, Theatr, Ffilm a Theledu, Daearyddiaeth a Gwleidyddiaeth. Gwelwyd cynnydd trawiadol yn y ddarpariaeth Gymraeg ym meysydd y gwyddorau dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae nifer o'n myfyrwyr yn cael budd o astudio'n ddwyieithog ym meysydd Mathemateg, Ffiseg, Gwyddorau Bioleg ac Amaethyddiaeth. Yn ystod y flwyddyn neu ddwy diwethaf mae'r Brifysgol wedi dechrau datblygu darpariaeth, gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ym maes Cyfrifiadureg, ac mae meysydd proffesiynol a galwedigaethol megis Cyfraith a Throsedddeg a Busnes yn cynyddu'r modiwlau a gynigir drwy'r Gymraeg ac yn gweld rhagor o fyfyrwyr yn ymgymryd â'r ddarpariaeth.

Yng ngoleuni'r gystadleuaeth yn y farchnad swyddi mae nifer o fanteision i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae ymchwil Adran Gwasanaethau Gyrfaoedd y Brifysgol yn dangos bod 90% o'r myfyrwyr sy'n astudio elfen o'u cynlluniau gradd drwy'r Gymraeg mewn gwaith neu'n astudio gradd uwch o fewn chwe mis i raddio. Mae'r Brifysgol yn cynnig ysgoloriaethau hael i fyfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg, ac mae nifer fawr o'n cyrsiau israddedig yn gymwys am Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gwerth hyd at £3,000. Yn yr un modd, cynigir Ysgoloriaethau Meistr ar rai o gynlluniau'r Brifysgol i uwchraddedigion, ac mae sawl myfyriwr ar hyd y blynyddoedd wedi derbyn Ysgoloriaeth Ymchwil gan y Coleg Cymraeg i hybu ymchwil ac ysgolheictod drwy'r Gymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi datblygu Tystysgrif Sgiliau Iaith er mwyn cydnabod sgiliau iaith Gymraeg myfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru. Mae cyfle i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ennill y cymhwyster pwysig hwn a fydd yn cael ei gydnabod gan gyflogwyr fel tystiolaeth bod graddedigion wedi cyrraedd safon gydnabyddedig mewn sgiliau ymarferol wrth ysgrifennu a siarad Cymraeg.

Mae'r Brifysgol yn manteisio i'r eithaf ar y cynlluniau cenedlaethol a gyllidir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy'r Gymraeg. Lleolir Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, ac mae staff a myfyrwyr y Brifysgol yn ymuno â'r Gangen er mwyn dod yn aelodau o gymuned ehangach y Coleg a chymdeithas Gymraeg fywiog Aberystwyth. Mae aelodau'r Gangen yn cydweithio'n agos â'r Coleg i ddatblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg yn Aberystwyth. Mae traddodiad hir o ddysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth ac, o ganlyniad, mae ein cyfraniad i waith y Coleg yn sylweddol. Er 2011 mae'r Brifysgol wedi

ychwanegu at gyfran ac ystod y ddarpariaeth Gymraeg drwy elwa ar ddarlithyddiaethau a gyllidir gan Gynllun Staffio Academaidd y Coleg, ac rydym yn arwain ar nifer o brosiectau cenedlaethol a gyllidir gan y Coleg, ynghyd â nifer o ddisgyblaethau academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys Ffiseg, Mathemateg, Cyfrifiadureg, Gwyddorau Biologol ac Amgylcheddol, Cyfraith a Gwleidyddiaeth.




Adroddiad STR04097 ac STR02212 Hydref 2014

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gosod targed uchelgeisiol i'r Brifysgol i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg erbyn 2015/16 er mwyn galluogi'r sector cyfan i gyrraedd y targed cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd 626 o fyfyrwyr yn dilyn o leiaf 5 credyd drwy'r Gymraeg a 476 o fyfyrwyr yn dilyn o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg erbyn 2015/16. Bydd hyn yn gynydd sylweddol o'r data a gofnodwyd ar gyfer 2012/13, sef 109 yn rhagor o fyfyrwyr yn dilyn o leiaf 5 credyd drwy'r Gymraeg a 118 yn rhagor o fyfyrwyr yn dilyn o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg.

Mae'r rhain yn sicr yn dargedau uchelgeisiol. Fodd bynnag, rydym eisoes yn adeiladu ar lwyddiant. Yn 2012/13, dilynodd 517 o fyfyrwyr (43% o'r myfyrwyr a siaradai Gymraeg) o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, a dilynodd 358 (30%) o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg. Yn y flwyddyn ddilynol (2013/14), gwelwyd y cynnydd canlynol yn y ffigurau: 558 myfyriwr (neu 57% o'r siaradwyr Cymraeg) yn dilyn 5 credyd a 399 (neu 41%) yn dilyn 40 credyd.

Gwelwyd cynnydd o 8% yn nifer y myfyrwyr sy'n cymryd 5 credyd a chynnydd o 12% yn nifer y rhai sy'n cymryd mwy na 40 credyd drwy'r Gymraeg.

Er mwyn cyrraedd ein targedau newydd erbyn 2017, mae angen inni gynllunio ar gyfer cynnydd pellach o 12% yn y myfyrwyr sy'n cymryd 5 credyd, a chynnydd o 19% yn y myfyrwyr sy'n cymryd 40 credyd drwy'r Gymraeg.




Byddwn yn anelu at gyrraedd y targedau hyn drwy wneud y canlynol:

- Cofrestru myfyrwyr yn ddiodyn ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg.
- Mireinio ein dulliau o adrodd am ddata.
- Sicrhau bod darpariaeth “anffurfiol” drwy’r Gymraeg yn cyrraedd y trothwy swyddogol angenrheidiol a chyflwyno adroddiad fel rhan o’r data cyfrwng Cymraeg.
- Parhau i gydweithio â sefydliadau eraill a’r Coleg Cymraeg i gynnig darpariaeth gydweithredol neu genedlaethol i fyfyrwyr Aberystwyth, gan gynnwys yn y meysydd hynny ble nad oes buddsoddiad ym Mhrifysgol Aberystwyth drwy’r Cynllun Staffio, ond ble mae myfyrwyr sy’n siarad Cymraeg.
- Adrodd am fyfyrwyr uwchraddedig sy’n dilyn y cyfan neu ran o’u hastudiaethau drwy’r Gymraeg.
- Ystyried sut y gall darpariaeth Gymraeg un adran o fewn Athrofa fod o fudd i fyfyrwyr sy’n medru’r Gymraeg mewn adrannau eraill yn yr un Athrofa er mwyn cynyddu’r nifer sy’n astudio drwy’r Gymraeg, drwy fapio llwybrau amlddisgyblaethol a/neu ystyried meysydd gorgyffwrdd rhwng disgyblaethau.
- Gweithio gyda myfyrwyr i’w hannog i astudio drwy’r Gymraeg a thargedu’r gynulleidfa goll sy’n medru’r Gymraeg ond sy’n peidio ag astudio drwy’r Gymraeg am amrywiol resymau.
- Darparu cefnogaeth ieithyddol i fyfyrwyr astudio drwy’r Gymraeg drwy’r Tiwtor Iaith a ariennir gan y Coleg.
- Bydd cynrychiolaeth o’r Gangen ar y Pwyllgor Datblygu a Chynllunio Academiaidd newydd a bydd hyn yn sicrhau lle canolog i’r Gymraeg wrth gynllunio darpariaeth academiaidd y Brifysgol.

Ein Staff Academaidd

Yn ôl data a ddarparwyd yn Adroddiad Llywodraeth Cymru², mae Prifysgol Aberystwyth yn ail ar y rhestr o sefydliadau sydd â'r nifer uchaf o staff sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (165 yn 2012/13), ac Aberystwyth sydd â'r ganran uchaf o staff academaidd dwyieithog yng Nghymru sy'n ymgymryd â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (82%). Canran y staff academaidd a allai ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth yn 2012/13 oedd 16.4%.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y staff a oedd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2010/11 a 2014/15.



Adroddiadau Monitro Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg 2014/15.

Targedau:

- Bod 100% o fyfyrwyr yn medru cyflawni 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynyddu canran yr Israddedigion rhugl eu Cymraeg sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg i 75% erbyn 2017/18.
- Cynyddu canran y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n cyflawni'r Dystysgrif Sgiliau Iaith.
- Cynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg i wella eu sgiliau ieithyddol.
- Cynyddu modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn meysydd targed.

Gweithredu:

- Sicrhau gwelliannau pellach wrth gasglu data er mwyn adrodd yn gywir am lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Sicrhau bod modd i'n darpariaeth academaidd gefnogi dulliau hyblyg wrth gynnig modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a dulliau dysgu.

² <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140918-welsh-higher-education-institutions-2012-13-cy.pdf>

- Llunio a gweithredu Cynllun Academaidd Tair Blynedd yn amlinellu targedau a blaenoriaethau Athrofaol i ddatblygu darpariaeth drwy'r Gymraeg.
- Cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu ac arwain Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Addysg Uwch. Parhau ag ymwneud y Brifysgol â'r Coleg, drwy Fwrdd y Cyfarwyddwyr, y Bwrdd Academaidd, y Paneli Pwnc, y Pwyllgor Cydweithio Academaidd a'r Grŵp Ymgynghorol, gan sicrhau bod eu gwaith yn graidd i Gynllun Academaidd y Brifysgol.
- Llunio a gweithredu Cynllun Marchnata yn benodol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwysau ymdrechion i recriwtio myfyrwyr o Gymru.
- Parhau i gynnwys categori "Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg" yn y Gwobrau Dysgu ac Addysgu Blyneddol a arweinir gan fyfyrwyr.
- Cynnal prosiectau ymchwil yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a gweithredu'r argymhellion.

Profiad Cymdeithasol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn adnabyddus fel cyrchfan poblogaidd i fyfyrwyr sy'n dymuno bywyd academaidd a chymdeithasol llawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall Aberystwyth ymfalchïo am fod yn fan cychwyn i sawl mudiad a chymdeithas Gymraeg a Chymreig. Mae ymgysylltiad helaeth y myfyrwyr Cymraeg â chymdeithasau a sefydliadau yn y Brifysgol a'r tu hwnt yn cynrychioli ffactor pwysig yn y cyfraniad amlwg a wna ein *Alumni* at economi, cymdeithas a diwylliant Cymru. Yn naturiol fe ddeillia rhan helaeth o'r bwrlwm hwn o ymdrechion y gymuned o fyfyrwyr ond fe geir cynhaliaeth hefyd o du Adrannau Gwasanaeth ac Athrofeydd Academaidd y Brifysgol. Rydym yn gwybod, yn anecdotaidd, am y brwdfrydedd a'r gefnogaeth eang i "Brofiad Cymraeg" ymysg myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, a chyfeirir ato fel ystyriaeth bwysig wrth ddewis dod i astudio yn Aberystwyth. Un o'n hamcanion yw cynnal a chyfoethogi'r profiad hwn ynghyd â bodlonrwydd ein myfyrwyr â'r profiad hwnnw.

Llety Penodedig Cymraeg

Sefydlwyd yr arfer o gynnig llety penodedig Cymraeg yn y 1960au mewn neuaddau ar wahân ar gyfer bechgyn a merched. Yn sgil pwysu gan fyfyrwyr am godi statws y Gymraeg dynodwyd Neuadd Pantycelyn, a agorwyd yn 1951, yn neuadd arlwygo gymysg cyfrwng Cymraeg yn 1973-74 gyda Dr John Davies yn Warden adnabyddus arni tan 1992. Roedd Neuadd John Williams, ar lan y môr, yn llety penodedig Cymraeg hefyd, a chynigiwyd llety hunan-arlwygo ynddi yn y 1980au a'r 1990au.

Mae byw mewn llety Cymraeg penodedig yn ffactor pwysig i lawer o fyfyrwyr wrth ddewis astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn ogystal mae'r awyrgylch Gymraeg a grëir gan lety Cymraeg penodedig yn galluogi myfyrwyr ail-iaith i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol ac i fagu hyder wrth siarad yr iaith, yn ogystal â denu myfyrwyr o wledydd a chefnidiroedd eraill i ddysgu'r iaith o'r newydd.

Mae'r Brifysgol yn datblygu ei llety o safon uchel i fyfyrwyr wrth agor Fferm Penglais yn 2015 a bydd llety Cymraeg penodedig yn parhau i gael ei gynnig.

Undeb y Myfyrwyr

Sefydlwyd y corff cyntaf i gynrychioli myfyrwyr yn 1900 ac mae gwaith Undeb y Myfyrwyr wedi esblygu cryn dipyn ers hynny. Mae'r Undeb yn cynrychioli buddiannau holl fyfyrwyr Aberystwyth, yn ymgyrchu ac yn darparu gwasanaethau cynghori a chefnogi ar eu cyfer. Mae'r Undeb yn darparu nifer o gyfleoedd cymdeithasol i'r myfyrwyr ac yn cynnig nifer o glybiau chwaraeon a chymdeithasau gwahanol yn ogystal â chyfleoedd i wirfoddoli. Mae'r Gymraeg wedi datblygu i fod yn rhan amlycach o'r Undeb ers rhai blynedd bellach.

Mae'r Undeb yn cyflogi Swyddog sabothol llawn amser sy'n gyfrifol am faterion Cymreig ac mae'r Swyddog hwnnw'n gyfrifol am redeg Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth. Trwy'r bartneriaeth hon, mae'r Undeb yn darparu gwersi Cymraeg i ddysgwyr, cynnal sesiynau iaith Gwaith i staff, darparu templedi Cymraeg ar gyfer clybiau a chymdeithasau sydd yn ei gwneud yn haws iddyn nhw gydymffurfio â'r polisi dwyieithrwydd. Mae'r Undeb hefyd wedi pasio Siartr yr Iaith Gymraeg UCM Cymru sydd yn gosod disgwyliadau penodol o ran defnydd a hyrwyddo'r Gymraeg gan yr Undeb. Mae Gwobrau Cymraeg ar gael i glybiau a chymdeithasau sydd yn gweithio'n galed dros y Gymraeg ac yn gwneud ymdrech arbennig i wneud defnydd sylweddol o'r iaith.

Mae nifer o staff yr Undeb yn siarad Cymraeg ac yn gallu rhoi gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n galluogi myfyrwyr i fedru dewis derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg ac fe sicrhewr bod myfyrwyr yn medru derbyn cyngor yn eu dewis iaith, a chyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfarfodydd ffurfiol yr Undeb, gan fod offer cyfieithu ar gael. Mae un o swyddogion rhan amser yr Undeb hefyd yn gyfrifol am y Gymraeg, sef Swyddog yr Iaith Gymraeg, ac mae'r Swyddog yn cyd-weithio gyda Llywydd UMCA er mwyn cefnogi ymgyrchoedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a buddiannau siaradwyr Cymraeg, e.e. Diwrnod Shwmae Su'mae, Rali Gerallt a Siarter y Gymraeg UCMC, yn ogystal â gweithio gydag UMCA i ddarparu rhaglen gymdeithasol yn adeilad yr Undeb sy'n cynnwys digwyddiadau Cymraeg a Chymreig. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo rhaglenni radio Cymraeg i fyfyrwyr a hefyd cynnal nosweithiau Sŵn, sef noson o gerddoriaeth Gymraeg, yn yr Undeb unwaith y mis. Mae ymroddiad yr Undeb dros y Gymraeg wedi cynyddu yn fawr dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r polisi dwyieithrwydd bellach yn un o brif bolisiau'r Undeb, ac yn dangos eu hymroddiad dros yr iaith a'i siaradwyr yma yn Aberystwyth.

UMCA a Fforwm Myfyrwyr Cymraeg

Sefydlwyd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth yn 1974, yr undeb myfyrwyr cyntaf o'i fath yng Nghymru. Erbyn hyn mae ganddo Swyddog Sabothol cyflogedig llawn-amser ac unwaith eto Aberystwyth oedd yn arloesi gan roi cyswll arwyddocaol i weddill undebau myfyrwyr Cymraeg Cymru.

Mae gan UMCA aelodaeth weithredol o tua 300 o fyfyrwyr ac mae'n gweithredu ar ffurf strwythur Llywydd a Phwyllgor Gwaith. Trefnir amryw o ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn, o ddathliadau prysur Wythnos y Glas i ddigwyddiadau rheolaidd megis Wythnos RAG (wythnos i godi arian i elusennau lleol a chenedlaethol) ac Wythnos Nefi Blw ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Llywydd ac aelodau o'r Tîm Gweithredol yn ymwneud â rhychwant o ddyletswyddau yn ddyddiol i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, pa un a ydynt yn aelodau o UMCA ai peidio, ynghyd â chefnogi gweithgareddau cymdeithasau Cymraeg eraill y myfyrwyr, megis Aelwyd Pantycelyn, y Geltaid, y Gymdeithas Gymraeg Ail-Iaith, ac Undeb Cristnogol Cymraeg Aberystwyth.

Mae UMCA wedi chwarae rôl allweddol yn natblygiad gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus Cymru ar hyd y degawdau. Yn ogystal â chyfrannu at ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol ar hyd ystod o faterion, bu UMCA a'i aelodau yn arwain ymgyrch y myfyrwyr i sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae Llywydd UMCA ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn aelodau o bwyllgorau y Brifysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at drafodaethau'n ymwneud â darpariaeth academiaidd drwy'r Gymraeg i fyfyrwyr, a sicrhau adnoddau a darpariaethau gweinyddol yn y Gymraeg. Yn 2014 sefydlwyd Fforwm Myfyrwyr Cymraeg ac mae hyn yn gyfle i fyfyrwyr a staff y Brifysgol ddod ynghyd i drafod pob agwedd sy'n ymwneud â phrofiad y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

Nid darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig y mae UMCA. Cynigir gwersi Cymraeg yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr a staff y Brifysgol ers blynyddoedd lawer, ac eleni fe wnaeth

oddeutu 150 gofrestru i dderbyn gwersi. Mae hyn yn gyfle gwych i ymfalchïo yn y Gymraeg a'i diwylliant a helpu eraill i'w gwerthfawrogi hefyd. Mae UMCA ac Aberystwyth hefyd yn gartref i'r Ddawns Ryng-golegol flynyddol, digwyddiad sy'n denu myfyrwyr o holl Undebau Cymraeg Cymru, ynghyd â rhai myfyrwyr o dros y ffin, i Aberystwyth am un penwythnos ym mis Tachwedd ar gyfer cystadlaethau chwaraeon a gig. Mae'n un o brif ddigwyddiadau calendr unrhyw fyfyrwr Cymraeg yng Nghymru bellach gydag oddeutu 700 o fyfyrwyr yn dod.

Targedau:

- Bod 80% o fyfyrwyr Cymraeg yn mynegi bodlonrwydd â'r 'Profiad Cymraeg'.
- Bod 80% o'r holl fyfyrwyr o Gymru yn datgan bodlonrwydd â'r cyfleoedd i gael mynediad at rychwant o brofiadau cyfrwng Cymraeg.
- Bod 80% o'r holl fyfyrwyr (DU, Ewropeaidd a Rhyngwladol) yn datgan ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gael mynediad at brofiadau diwylliannol a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithredu:

- Sefydlu Canolfan Gymraeg ar gyfer y Brifysgol gan greu gofod addas ar Gampws Penglais ar gyfer Canolfan Gymdeithasol, i weithredu'n ganolbwynt i weithgareddau Cymraeg a diwylliannol.
- Bod y Brifysgol yn parhau i gefnogi swydd sabothol Llywydd UMCA / Materion Cymraeg fel rhan o'r Cytundeb gydag Undeb y Myfyrwyr.
- Cefnogi gweithgareddau a arweinir gan fyfyrwyr gan gynnwys y digwyddiadau a drefnir gan UMCA ac Undeb y Myfyrwyr sy'n darparu profiadau cadarnhaol i fyfyrwyr ddefnyddio'u Cymraeg.
- Parhau i gynnal Fforwm Myfyrwyr Cymraeg sydd newydd ei sefydlu fel cyfrwng i gynrychioli barn myfyrwyr Cymraeg ac i gyd-drafod â staff y Brifysgol sut i wella'r "Profiad Cymraeg" i'n myfyrwyr.
- Gosod cwestiynau penodol yn ymwneud â phrofiadau myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS).
- Sicrhau bod Profiad Cymraeg ein Myfyrwyr yn gydran gydnabyddedig yn y cynlluniau ehangach i wella Profiad y Myfyrwyr.
- Parhau i ddarparu dewis o lety cyfrwng Cymraeg penodedig sy'n cynorthwyo cynnal cymuned Myfyrwyr Cymraeg gynhwysol a deniadol.
- Integreiddio dwyieithrwydd i'r strategaeth Cyflogadwyedd ar draws y Brifysgol, gan gynnwys gwella ar yr Allbynnau Cyflogadwyedd presennol o 90% gan fyfyrwyr sydd wedi astudio yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Y Gweithle Dwyieithog*

*Mae'r adran hon yn berthnasol i Amcanion Strategol 1, 5 a 6 y Brifysgol.

Defnydd mewnol o'r Gymraeg: Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gan ddarparu profiadau cadarnhaol i staff a myfyrwyr. Cynigir cefnogaeth a hyfforddiant ieithyddol i staff a myfyrwyr i ddysgu a gloywi'r Gymraeg. Darperir gwasanaethau'r Brifysgol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dechreuodd y Brifysgol ddatblygu polisi penodol ar y Gymraeg yn yr 1960au a ffurfiolwyd ac ehangwyd y polisi hwnnw yn 1978 pan gyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Llys. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd i barhau i adolygu'r polisi'r ac i oruchwylio'r modd y câi ei weithredu. Mae Siarter y Brifysgol hefyd yn hawlio bod y Gymraeg yn un o ddwy o ieithoedd swyddogol y sefydliad. Mabwysiadwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol yn 2003, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a diwygiwyd y Cynllun yn 2014. Bellach rydym yn braenaru'r tir ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith arfaethedig yn unol â Mesur y Gymraeg 2011. Mae'r Brifysgol yn denu staff academiaidd a gweinyddol, a myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a sy'n dewis gweithio, astudio a chymdeithasu yn yr iaith, a thros y blynyddoedd mae nifer o staff a myfyrwyr di-Gymraeg wedi manteisio ar wersi Cymraeg a gynigir gan y Brifysgol. Cryfhawyd y ddarpariaeth ieithyddol gefnogol hon pan sefydlwyd Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru yn 2006, ac ehangwyd peuoedd yr iaith yn y gweithle. Bwriadwn adeiladu ar y seilwaith gadarn hon, ac ymrwymwn i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gymdeithasol.

Fel rhan o broses ail-gyflunio strwythur academiaidd y Brifysgol penodwyd Cyfarwyddwyr y Gymraeg a Diwylliant Cymru ym mhob Athrofa. Mae Cyfarwyddwyr y Gymraeg yn gyfrifol am ddatblygu darpariaeth academiaidd cyfrwng Cymraeg eu hathrofa ac am oruchwylio gweinyddiaeth ddwyieithog sy'n galluogi staff a myfyrwyr dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Cymeradwywyd Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol gan Gomisiynydd y Gymraeg a phrif amcan y Strategaeth hon yw penodi staff sydd â'r sgiliau ieithyddol priodol i gyflawni dyletswyddau penodol yn ddwyieithog. Mae'r Strategaeth hefyd yn anelu at ddarparu hyfforddiant addas i staff presennol gyflawni gofynion ieithyddol eu swyddi ac at ddatblygu gweithlu sy'n hyderus wrth weithio yn y ddwy iaith.

Mae Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol wedi'i chymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg, a phrif amcan y Strategaeth hon yw penodi staff sydd â'r sgiliau ieithyddol priodol i gyflawni dyletswyddau penodol yn ddwyieithog. Mae'r Strategaeth hefyd yn anelu at ddarparu hyfforddiant addas i staff presennol i gyflawni galwadau ieithyddol eu swyddi ac i ddatblygu gweithlu sy'n hyderus i weithio yn y ddwy iaith. Mabwysiadwyd disgrifiadau ieithyddol newydd yn 2013 i gynorthwyo wrth glustnodi gofynion iaith Gymraeg priodol a oedd yn hanfodol ar gyfer pob swydd. Ar hyn o bryd, mae sgiliau iaith Gymraeg tua 2/3 o'r gweithlu yn wybyddus ac mae angen gwneud rhagor i gael darlun mwy cyflawn.

Mae'r Brifysgol yn cynnig gwersi Cymraeg i'w staff yn rhad ac am ddim a'r llynedd manteisiodd bron i drigain o staff ar y gwasanaeth hwn. Cefnogir y gwersi gan weithgareddau anffurfiol megis y Cynllun Mentora Dysgwyr, sy'n dwyn staff rhugl a dysgwyr ynghyd i ymarfer siarad yr iaith, a'r Clybiau Coffi sy'n cyfarfod unwaith y mis ar draws y

campysau. Ein nod yw sicrhau bod rhagor o staff yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio eu Cymraeg er mwyn iddynt groesi'r bont a defnyddio'r iaith yn eu gwaith beunyddiol.

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi a chynyddu hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r iaith yn y gwaith, ac mae'r sesiynau gloywi'r iaith ysgrifenedig a gynigir yn allweddol wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg ffurfiol. Anogwn y staff sydd â'r sgiliau priodol i roi cynnig ar ysgrifennu e-bost a dogfennau byrion yn y Gymraeg, a darparwn wasanaeth gwirio yn ôl yr angen.

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrannu at ddigwyddiadau a gwyliau cenedlaethol yn ogystal, a chynhelir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod Diwrnod Cenedlaethol *Shwmae Su'mae*, dathliadau Gŵyl Dewi, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Byddwn yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i ymfalchïo yn yr iaith ac i annog holl aelodau'r Brifysgol i gyfranogi yn y digwyddiadau cymdeithasol a'r cyfleoedd ffurfiol sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg.

Targedau:

- Cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am sgiliau iaith Gymraeg staff i o leiaf 80% o'r gweithlu.
- Bod 90% o staff rhugl eu Cymraeg yn defnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol yn y gwaith;
- Bod 50% o staff sy'n dysgu Cymraeg neu sydd ddim yn ystyried eu hunain yn rhugl yn defnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.
- Bod cynnydd yn nifer y staff sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg yn y Gweithle.
- Cyfoethogi 'tirwedd ieithyddol' y Gymraeg ar draws y campws.

Gweithredu:

- Cynnal Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg o'r staff, myfyrwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r Brifysgol er mwyn canfod agweddau at ddefnydd iaith, anghenion hyfforddi a galluogi cynllunio strategol. Bydd yr Arolwg yn darparu gwaelodlin i osod targedau a mesur cynnydd yn flynyddol.
- Parhau i weithredu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a darparu data dibynadwy a fydd yn sail i gynllunio ieithyddol ar draws y Brifysgol.
- Datblygu Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg a fydd yn berthnasol i'r Safonau Iaith newydd.
- Darparu cefnogaeth ieithyddol i'r sawl sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog.
- Darparu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith i staff newydd fel rhan o hyfforddiant cynefino cychwynnol a rhoi cyfle hefyd i staff presennol fedru mynychu hyfforddiant a ddarperir yn rheolaidd
- Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn fewnol ar gyfer staff a myfyrwyr gan adeiladu ar gynlluniau presennol a datblygu rhai newydd.

6. Y BRIFYSGOL A'I CHYMUNED*

*Mae'r Adran hon yn berthnasol i Amcanion Strategol 1, 5 a 6 y Brifysgol.

Y Brifysgol a'i Chymuned: Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru i wireddu amcanion y Cynllun Cyfannol ac i'w ddatblygu ymhellach. Byddwn yn cydweithio ag arbenigwyr mewn meysydd penodol i ddatblygu prosiectau, ac yn casglu barn a syniadau defnyddwyr ein gwasanaethau am ddulliau o hyrwyddo'r Gymraeg ac annog defnydd ohoni.

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i gefnogi cymuned leol Aberystwyth a Cheredigion, ac wrth fabwysiadu'r Cynllun hwn byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r cychwyn wrth greu prosiectau a mentrau newydd, ac wrth ddatblygu gwaith y Brifysgol. Byddwn yn parhau i roi ystyriaeth i gontractau lleol wrth gomisiynu gwaith allanol er mwyn sicrhau seilwaith sosio-economaidd cadarn i alluogi'r Gymraeg i ffynnu. Byddwn hefyd yn rhoi sylw dyledus i ofynion Cymalau Trydydd Parti y Cynllun Iaith Gymraeg, ac yn cynnal asesiad ardrawiad ieithyddol o ddatblygiadau, mentrau a pholisïau newydd.

Mae hybu cyfranogiad cymunedol drwy feithrin cyswllt â'r gymuned Gymraeg, gan noddi a chynnal digwyddiadau cyhoeddus yn Gymraeg, yn rhan greiddiol o genhadaeth y Brifysgol. Byddwn yn datblygu rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol ac academaidd o dan adain y Gangen, gan gynnwys seminarau a gweithdai ymchwil, academaidd a gweinyddol, y gall ein staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach eu mwynhau. Byddwn hefyd yn cydweithio â Chanolfan y Celfyddydau i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio ei gwasanaethau yn Gymraeg a darparu arlwy Gymraeg a Chymreig, a chyda'r Ganolfan Chwaraeon i ddarparu elfennau o hyfforddiant a gweithdai yn Gymraeg. Bydd hyn yn dyfnhau presenoldeb gweledol y Gymraeg ar y campws a'r cyfleoedd i glywed a defnyddio'r iaith.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymwybodol o'i swyddogaeth i weithio'n agos ag ysgolion yng Ngheredigion a Chymru i ddatblygu ac ymestyn ei gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y cwricwlwm, yn enwedig wrth i ddwyieithrwydd dyfu yn y sector addysg yng Nghymru. Rydym yn dymuno darparu cyfleoedd cyffrous i bobl ifanc i weld rhychwant a dyfnder y gweithgareddau sydd ar gael drwy'r Gymraeg yn y sector addysg uwch, ac i weld yr iaith y tu hwnt i gyd-destun eu dosbarthiadau presennol.

Mae Cyngor y Brifysgol wedi cymeradwyo'r broses o lunio cynllun busnes ar gyfer sefydlu Canolfan Gymraeg ac mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo. Amcan y prosiect hwn yw rhoi canolbwynt i weithgareddau Cymraeg y Brifysgol a darparu cyfleoedd i'r gymuned ehangach ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol sydd wedi'u neilltuo i hybu'r Gymraeg. Bydd sefydlu Canolfan Gymraeg yn ein galluogi i ddarparu adnoddau cefnogol i wireddu ein hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg, a darparu gwasanaeth ymgynghorol ym meysydd y Gymraeg, economi a diwylliant Cymru. Yn ei dro, bydd hyn yn cryfhau proffil y Brifysgol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ym meysydd ymchwil dwyieithrwydd, economi a diwylliant Cymru.

Targed:

- Ceisio cynyddu nifer a chanran y bobl yn yr ardal sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021, drwy weithio mewn partneriaeth â'r gymuned leol a Llywodraeth Cymru.
- Cynyddu rhychwant a dyfnder y gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a anelir at ddisgyblion ysgol.

Gweithredu:

- Parhau i gefnogi a chydabod cyfraniad gwirfoddol y staff at gynnal rhwydweithiau a chymdeithasau Cymraeg y fro.
- Parhau i gefnogi presenoldeb y Brifysgol mewn digwyddiadau Cymraeg lleol a chenedlaethol, megis yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn ogystal â chyfrannu at fentrau newydd – megis Shwmae Su'mae a Ras yr Iaith.
- Cynnal Asesiad Ardrowiad Ieithyddol o ddatblygiadau, mentrau a pholisïau newydd.
- Sefydlu Canolfan sy'n ganolbwynt i weithgareddau Cymraeg ac yn cynnig adnoddau i holl gymuned y Brifysgol ac i'r gymuned ehangach.
- Hybu cyfranogiad cymunedol drwy feithrin cyswllt â'r gymuned Gymraeg gan gefnogi a chynnal digwyddiadau cyhoeddus yn Gymraeg.
- Cyfrannu'n weithredol at flaenoriaethau a osodir yn Natganiad Polisi Llywodraeth Cymru 'Bwrw Mlaen'.

7. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymchwil

*Mae'r Adran hon yn berthnasol i Amcanion Strategol 2, 4, 5 a 6 y Brifysgol.

Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymchwil: Fel Prifysgol sydd ag ymchwil wrth graidd ei strategaeth byddwn yn parhau i annog, datblygu a gweithredu gweithgaredd ymchwil blaengar o safon ryngwladol ar draws ystod o ddisgyblaethau. Fel Prifysgol ganolig ei maint mae gweithio'n rhyngddisgyblaethol yn un o nodweddion ein gweithgaredd ymchwil. Yn ogystal mae cydweithio gyda phrifysgolion eraill ledled y byd, ynghyd â gyda chyrrff allanol a phartneriaid eraill yn allweddol i lwyddiant ein hymchwil. Yn benodol hefyd, fel prifysgol sydd â hanes a thraddodiad hir o gyfrannu at ysgolheictod a bywyd cyhoeddus Cymru, mae ein cyfraniad at ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg – ynghyd ag ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gymru - yn un o gonglfeini ein gweithgaredd yn y maes hwn.

Ymchwil drwy'r Gymraeg: Mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldeb i barhau i fod yn gadarnle i ddatblygu'r Gymraeg fel iaith ymchwil academaidd ar hyd ystod eang o ddisgyblaethau; o'r pynciau hynny sydd eisoes â thraddodiad ymchwil sylweddol i'r disgyblaethau hynny sydd yn ceisio mynd i'r afael â ffurfio disgyrsiau ymchwil newydd yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Mae cyfraniad staff a myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth at ddatblygiad dysg ac ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg yn un sylweddol sydd wedi cwmpasu degawdau lawer. Mae'n gwbl allweddol bod y gallu i gynnal blaengaredd yn y maes hwn yn parhau.

Ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

Mae cyfanswm yr allbynnau a gyflwynir drwy'r Gymraeg i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn isel. O'r allbynnau unigol a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth, roedd 42 eitem (neu 3.7%) yn allbynnau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ystyried nifer yr academyddion y cyflwynwyd eu gwaith i'r FfRhY, gwelir bod 6% o'n staff academaidd wedi cyfrannu o leiaf un allbwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn bod ychydig dros 10% o'r staff academaidd sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cyfrannu allbwn ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil – ar draws rhychwant o bynciau – i'r safon a ddisgwyilir ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

Mae hyn yn gosod Aberystwyth yn y brif safle o holl Brifysgolion y DU am allbynnau ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â'r FfRhY 2013, o ystyried rhychwant y disgyblaethau a nifer yr allbynnau.

Ieithoedd ac Ymchwil Rhyngwladol

Mae staff academaidd a myfyrwyr ymchwil Prifysgol Aberystwyth hefyd yn rhan o gymunedau ymchwil rhyngwladol. Mae'r ymchwilwyr hyn yn gweithio mewn partneriaethau ag academyddion a chyfran-ddeiliaid eraill ar draws y byd, ac yn cyfrannu at broffil rhyngwladol yr iaith Gymraeg fel un o ieithoedd academaidd y byd, ochr yn ochr â ieithoedd swyddogol taleithiau eraill sydd â nifer fwy o siaradwyr.

Ni ddylid mesur gwerth iaith fel iaith i ymchwilio ynddi drwy gyfri'r nifer o gyhoeddiadau ysgolheigaidd a gyflwynir yn yr iaith honno, ac yn sicr ni ddylid mesur gwerth yn unol â nifer

yr eitemau a gyflwynir yn yr iaith i'r FfRhY. Fel sefydliad, rydym yn cydnabod swyddogaeth ieithoedd gwahanol yn y camau amrywiol sydd oddi fewn i'r prosesau ymchwil, o gynllunio i weithredu a lledaenu. Defnyddir y Gymraeg mewn hyfforddiant ymchwil i staff a myfyrwyr, wrth fonitro ymchwil, mewn grwpiau ymchwil, trwy gynnal ymchwil, yn ogystal ag mewn seminarau, darlithoedd a chyhoeddiadau o bob math.

Ymchwilio i'r iaith Gymraeg ac Ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gymru

Yn naturiol, nid yw pob darn o ymchwil ar yr iaith Gymraeg, nac ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Yn yr un modd, nid yw ymchwil a gyflawnir drwy'r Gymraeg yn gyfyngedig i faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg neu gyd-destunau sy'n canolbwyntio ar Gymru. Yn wir, mae ymchwil gan academyddion a myfyrwyr ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnwys gwaith theoretig a chyd-destunol nad yw'n ddim i'w wneud â'r iaith Gymraeg fel pwnc ymchwil, nac yn wir â Chymru fel cyd-destun, ac eithrio mai yn y Gymraeg y cyflwynir yr ymchwil.

Fodd bynnag, mae'n addas bod gweithgareddau ymchwil sy'n canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg, ar faterion Cymreig ac ar Gymru fel cyd-destun, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfraniad staff academiaidd a myfyrwyr ymchwil Prifysgol Aberystwyth i ddatblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth yn y meysydd hyn yn sylweddol. Yn ychwanegol at hyn, mae ethos Cymraeg cryf ein staff academiaidd yn cyfrannu at ddenu ysgolheigion eraill i weithgareddau ymchwil sy'n berthnasol i Gymru.

Gwerddon

E-gyfnodolyn academiaidd traws-ddisgyblaethol yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd yn y Gymraeg ers 2007. Fe'i sefydlwyd yn dilyn trafodaeth yn y Bwrdd Dysgu Drwy'r Gymraeg. Ers nifer o flynyddoedd bu'n freuddwyd i weld cynnydd sylweddol ym maes ymchwil cyfrwng Cymraeg ar draws y cymunedau academiaidd. Fel rhan o'r ymdrech i hyrwyddo statws yr iaith o fewn addysg uwch, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bwysig i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ymchwil ac i'r perwyl hwnnw penderfynwyd sefydlu cyfnodolyn academiaidd a fyddai'n fforwm ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y Dyniaethau, y Gwyddorau a'r Celfyddydau.

Prif amcan *Gwerddon* yw symbylu trafodaeth academiaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, sbarduno diwylliant ymchwil yn y Gymraeg, a chynnig llwyfan addas ar gyfer cyhoeddi ymchwil o'r radd flaenaf yn yr iaith Gymraeg ar draws ystod mor eang â phosib o ddisgyblaethau – yn enwedig y rheini lle nad ydyw'r Gymraeg yn draddodiadol wedi cael llawer o sylw. Mae'n fenter hollbwysig yng nghyd-destun ehangu cyfleoedd i gyd-drafod, rhannu gwybodaeth a chyhoeddi yn Gymraeg i bawb sy'n cynnal gwaith ymchwil ysgolheigaidd, boed yng Nghymru neu du hwnt.

Targedau:

- Cynnal ein safle arweiniol mewn perthynas â rhychwant a nifer yr allbynnau cyfrwng Cymraeg a gyflwynir i FfRhY 2020.
- Cynyddu nifer y staff academiaidd sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n medru cyflwyno allbwn cyfrwng Cymraeg i'w ystyried yn FfRhY 2020 i 33%³ (ar yr amod bod yr un ystyriaethau'n berthnasol, h.y. 4 allbwn fesul unigolyn FTE)

³ H.y. y canran o staff Cyfrwng Cymraeg sy'n ymchwil weithredol a'u proffiliau ymchwil yn cynnwys o leiaf un cyhoeddiad o safon FfRhY, pa un a yw'r eitem yn cael ei chyflwyno yn allbwn terfynol y Brifysgol ai peidio.

- Cyfoethogi proffil ymchwil ein myfyrwyr ymchwil.
- Cynyddu nifer y doethuriaethau a gyflwynir yn Gymraeg; ehangu rhychwant y pynciau. Cynyddu ein gallu i oruchwylio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i uwchraddedigion gynyddu eu sgiliau yn y Gymraeg – gan sicrhau bod o leiaf 5 credyd ar gael ym mhob blwyddyn astudio.
- Datblygu strategaeth i gefnogi ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gymru, gan gydnabod swyddogaeth ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes penodol hwn.

Gweithredu:

- Parhau gyda'n safle arweiniol mewn ymchwil ysgolheigaidd drwy'r Gymraeg, a chefnogi datblygiad yr ymchwil wrth i'n rhychwant o ddisgyblaethau a gyngir drwy'r Gymraeg gynyddu.
- Cefnogi gweithgaredd ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Adrannol, Athrofaol a Sefydliadol ar draws y disgyblaethau ac yn rhyngddisgyblaethol.
- Adrodd yn flynyddol ar weithgareddau ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg (gan ddefnyddio system PURE).
- Sicrhau fod pob aelod o staff – yn enwedig staff ar ddechrau eu gyrfa neu staff academiaidd newydd a benodir, yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymchwil.
- Cefnogi a chynnal cymuned fywiog o fyfyrwyr ôl-raddedig sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu hamser ym Mhrifysgol Aberystwyth; darparu hyfforddiant addas a chyfleoedd i'r sawl sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith ymchwil, ynghyd â'r sawl sy'n defnyddio'r iaith ar gyfer agweddau eraill o'u bywydau ym Mhrifysgol Aberystwyth (gan gynnwys gwella sgiliau cyflogadwyedd)
- Cynnal a datblygu capasiti goruchwylio doethurol drwy'r Gymraeg ar draws rhychwant o bynciau a disgyblaethau.
- Cynnal, cefnogi a datblygu nifer a rhychwant y seminarau ymchwil, darlithoedd, mentora a hyfforddiant a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy'r adran Ymchwil Busnes ac Arloesi, yr Athrofeydd a rhannau eraill o'r Brifysgol.
- Cydnabod swyddogaeth benodol a chyfrifoldeb y Brifysgol wrth hyrwyddo gwybodaeth am Gymru a'r iaith Gymraeg – trwy gyfres o weithrediadau ymchwil yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill.

Roedd nifer o'r penodiadau cyfrwng Cymraeg yn ymchwilwyr gyrfa gynnar ac felly ni chawsant eu cyflwyno yn FfRhY 2013. Mae nifer ohonynt yn benodiadau mewn meysydd sy'n newydd i'r Gymraeg fel iaith ymchwil.

GWYBODAETH BELLACH

Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth

<http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/cwls/pdfs/CYNLLUN-IAITH-GYMRAEG-DIWYGIEDIG-2014.pdf>

Canllaw Staff i'r Cynllun Iaith Gymraeg

<http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/staff-guide/>

Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

<http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/bilingual-skills-strategy/>

Cyfieithu a Chefnogi

<http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/translation-and-support/>

Cangen Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

<http://www.aber.ac.uk/cy/ccc/>

Gwerddon

<http://www.gwerddon.org/cy/hafan/>

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg

Prifysgol Aberystwyth

Hugh Owen

Penglais

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3DY

01970 622045

<http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/>